# DAVIES, TREVOR OWEN (1895 - 1966), gweinidog (MC) a phrifathro Coleg Trefeca

**Enw:** Trevor Owen Davies
**Dyddiad geni:** 1895
**Dyddiad marw:** 1966
**Priod:** Olwen Jane Davies (née Phillips)
**Rhiant:** Mary Winifred Davies
**Rhiant:** Owen Gruffydd Owen
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog (MC) a phrifathro Coleg Trefeca
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 20 Tachwedd 1895 yng Nghae Adda, Llanwrin, Trefaldwyn, mab Owen Gruffydd Owen a Mary Winifred Davies, Cae Adda. Yr oedd ei dad yn frawd i Richard Owen, Mynydd Ednyfed (tad ' Dame ' Margaret LLOYD GEORGE). Addysgwyd ef yn ysgol y pentref, ysgol sir Machynlleth, Coleg y Brifysgol, Aberystwyth (lle graddiodd yn y clasuron) a Choleg Eglwys Crist, Rhydychen (lle graddiodd gydag anrhydedd mewn diwinyddiaeth). Cafodd radd B.Litt. am draethawd ar ' The Augustinian doctrine of grace and free will '. Dechreuodd bregethu yn ei eglwys gartref cyn iddo raddio. Ordeiniwyd ef yn 1925, a bu'n gweinidogaethu ym Methel, Cilfynydd, Morgannwg (1925-26). Penodwyd ef yn is-athro yng Ngholeg Trefeca yn 1926, ac ar farwolaeth y Prifathro W.P. Jones gwasanaethodd fel prifathro'r coleg hyd ei ymddeoliad yn 1964. Priododd, yn 1933, Olwen Jane, merch Benjamin Phillips, gweinidog (MC) Merthyr Cynog, a bu iddynt un mab.

Yr oedd T.O. Davies yn r blaenllaw yn ei gyfundeb ac ym mywyd cyhoeddus sir Frycheiniog. Ef oedd cadeirydd Bwrdd Colegau Unedig ei gyfundeb, ac etholwyd ef yn llywydd Sasiwn y Dwyrain yn 1964. Bu'n aelod o Standing Joint Committee ac o bwyllgor addysg sir Frycheiniog, a dyrchafwyd ef yn ynad hedd yn 1950. Bu'n ddarlithydd am rai blynyddoedd mewn dosbarthiadau addysg bellach dan nawdd colegau Caerdydd, Aberystwyth a Phrifysgol Birmingham. Bu farw 10 Ebrill 1966, a chladdwyd ei weddillion ym mynwent Siloa, Merthyr Cynog.

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau


*Blwyddiadur y Methodistiaid Calfinaidd*, 1967, 259-60

gwybodaeth gan ei weddw

adnabyddiaeth bersonol


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20751832


**Dyddiad cyhoeddi:** 1997



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu